ciwa4sheeteducation[FP]18.4.11 19/4/11 09:15 Page 2

Addysg yng Nghymru

Nodyn Briffio i Ymgeiswyr y Cynulliad

Bu Eglwysi Cymru yn darparu ysgolion i blant Cymru am 200 mlynedd. Yn 2011, wrth inni ethol llywodraeth newydd i Gymru newydd, deil yr Eglwysi'n ymrwymedig i'r gwaith hwn ac y maent yn gwahodd pob aelod o'r Senedd i'w cefnogi, a rhoi ffydd yn addysg Cymru.

Y mae yng Nghymru fwy na 250 o ysgolion ag iddynt gymeriad crefyddol. Fe'u darperir gan yr Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Rufain, ac y maent yn gwasanaethu rhyw 50,000 o ddisgyblion – 1 ym mhob 8 o'r lleoedd sydd yn ysgolion ein gwlad

Y mae Ysgolion Eglwys yn gynhwysol wrth natur, yn croesawu plant o deuluoedd sy'n perthyn i bob ffydd a heb berthyn i'r un, ond yn cydnabod bod ffydd yn rhywbeth sy'n llunio bywydau pobl ledled y byd.

Y mae Ysgolion Eglwys ym mhob awdurdod unedol. Y maent yn cynnig dewis ac amrywiaeth i bobl Cymru a fu yn arloeswyr ym myd addysg erioed.

Yn darparu ysgolion ers canrifoedd; yn ymrwymedig i blant, ieuenctid ac athrawon Cymru heddiw.

7,000

- Yr ydym yn cynnal gyrfaoedd 7,000 o athrawon proffesiynol a staff cynhaliol ac yn meithrin athrawon ac arweinwyr ysgol at y dyfodol
- Yr ydym yn penodi Llywodraethwyr Sylfaen sy'n bont rhwng yr ysgolion a'r gymuned leol

Partneriaeth

- Mae'r Eglwysi'n gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol, y llywodraeth genedlaethol a phartneriaid eraill, gan gynnwys Estyn, i ddarparu'r amgylchedd gorau posibl i blant ddysgu a ffynnu ym mhob agwedd ar eu haddysg
- Y mae Ysgolion Eglwys yn cynnwys yr un cwricwlwm ag Ysgolion Cymunedol, ac yn ceisio darparu addysg eang ac amrywiol a sicrhau'r cyraeddiadau a'r cyflawniadau uchaf i ddisgyblion

Buddsoddi

- Y mae buddsoddi mewn Ysgolion Eglwys yn rhan allweddol o Raglen Ysgolion yr 21fed Ganrif, a'r Esgobaethau'n cydweithio'n agos â'u partneriaid mewn llywodraeth leol ac yn Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu amglchedd addysg o ansawdd uchel i'n plant

75%

- Y mae clerigion Cymru yn rhoi blaenoriaeth i Ysgolion Eglwys; dengys ymchwil fod 75% o glerigion yn ymweld â'u hysgol leol bob wythnos i roi gofal a chynhaliaeth fugeiliol i'r staff, y disgyblion a'r teuluoedd
- Y mae Ysgolion Eglwys yn ymrwymedig i ddathlu treftadaeth gyfoethog ffydd, iaith a diwylliant ein cenedl

Cymunedol

- Y mae Ysgolion Eglwys yn ganolfannau cymunedol naturiol, boed hynny yng nghanol dinas neu ym mhentrefi cefn gwlad, ac fe'u cefnogir gan rwydwaith o blwyfi a chlerigion ledled Cymru

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

www.eglwysyngnghymru.org.uk

BLWYDDYN ADDYSG GATHOLIG 2010 - 2011

www.cesew.org.uk

Mannau Addoli yng Nghymru

Nodyn Briffio i Ymgeiswyr y Cynulliad

Rhai Ffeithiau am Fannau Addoli

1,408
Mae'r Eglwys yng Nghymru'n gyfrifol am 1,408 o fannau addoli yng Nghymru (amcangyfrifir bod dros 4,000 o fannau addoli yng Nghymru)

985
Mae'r Eglwys yng Nghymru'n gofalu am 985 o eglwysi ac eglwysi cadeiriol rhestredig (mae ychydig dros 1,600 o fannau addoli rhestredig yng Nghymru)

42,000
Mae tua 42,000 o bobl yn addoli bob wythnos yn eglwysi'r Eglwys yng Nghymru

15,000
Mae dros 15,000 o sesiynau gweithgarwch cymunedol yn cael eu cynnal yng Nghymru bob wythnos yn adeiladau'r Eglwys yng Nghymru

£70 miliwn
Rydym yn amcangyfrif y bydd angen tua £70 miliwn dros y 5 mlynedd nesaf i atgyweirio a chynnal adeiladau rhestredig ein heglwysi

2 filiwn
Yn denu dros 2 filiwn o ymwelwyr bob blwyddyn

Mae Mannau Addoli'n bwysig gan eu bod:

- Yn ganolbwynt ar gyfer bywyd ysbrydol cymunedau
- Yn ganolbwynt ar gyfer digwyddiadau bywyd allweddol
- Yn rhan allweddol o dreftadaeth ein gwlad ac, yn aml, dyma fydd yr adeilad hynaf mewn cymuned
- Yn cael eu cynnal a'u cadw gan wirfoddolwyr lleol – pobl leol sy'n gyfrifol am lefydd o bwys cenedlaethol
- Yn aml, dyma'r adeilad cymunedol diwethaf mewn cymuned
- Yn adrodd stori bywydau pobl Cymru
- Yn ystorfeydd gwaith celf o safon – oriel gelf ym mhob cymuned
- Mae'r cynulleidfaoedd yn rhan o waith allgymorth a gofal cymdeithasol sy'n cefnogi gwaith darparwyr statudol

Gallwch helpu trwy:

- Barhau i ddarparu cymorth trwy gynlluniau grant a weinyddir gan Cadw a Llywodraeth y Cynulliad e.e y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol, y Loteri Genedlaethol ac ati
- Annog partneriaethau arloesol – rydym yn croesawu defnyddio'r rhwydwaith cenedlaethol hwn er lles y gymdeithas
- Annog defnyddio adeiladau eglwysi ar gyfer digwyddiadau cymunedol, cyfarfodydd ac ati
- Cefnogi polisïau sy'n helpu i adfywio mannau addoli fel asedau cymunedol a threftadaeth allweddol
- Annog perthynas waith agosach gyda llywodraeth ar bob lefel i helpu i gyflawni blaenoriaethau lleol
- Cefnogi polisïau sy'n annog ac yn magu hyder gwirfoddolwyr
- Datblygu mwy o ymwybyddiaeth ymhlith cyrff noddi o werth mannau addoli a chydnabod hyn trwy ddarparu grantiau
- Cefnogi parhad cymhellion treth sy'n helpu eglwysi a chyrff gwirfoddol fel Cymorth Rhodd, Cynllun Grant Mannau Addoli Rhestredig ac ati

Claddfeydd Eglwysi yng Nghymru

Nodyn Briffio i Ymgeiswyr y Cynulliad

Ffeithiau am yr Eglwys yng Nghymru a'i Chladdfeydd

1,000
Mae'r Eglwys yng Nghymru'n gyfrifol am dros 1,000 o gladdfeydd ledled Cymru

Rheoli
Yr Eglwys yng Nghymru yw'r unig awdurdod claddu yng Nghymru y mae ei ffioedd claddu'n cael eu rheoli gan Lywodraeth y Cynulliad

Cynnal
Mae mynwentydd yn cael eu cynnal gan gynulleidfaoedd lleol heb unrhyw gymorth gwladwriaethol ffurfiol

Cymuned
Mae claddfeydd yr Eglwys yng Nghymru ar gael i bawb yn y gymuned, beth bynnag yw eu haelodaeth neu gred; maent yn gladdfeydd cyhoeddus

10 mlynedd
Ymhen deng mlynedd, ni fydd gan ddwy ran o dair o gladdfeydd yr Eglwys yng Nghymru unrhyw le pellach ar gyfer claddedigaethau newydd

£16 miliwn
Rydym wedi nodi gwerth £16 miliwn o waith i gladdfeydd, gan gynnwys llwybrau a waliau, gyda £3.6 miliwn wrth gefn i dalu'r costau hyn

Mae mynwentydd yr Eglwys yng Nghymru'n bwysig gan eu bod:

- Yn darparu'r orffwysfan olaf mewn cymunedau, sy'n gallu bod yn hynod bwysig mewn ardaloedd gwledig
- Yn cofnodi bywydau pobl Cymru
- Yn arwyddbyst hanfodol i'r gorffennol
- Yn nodi'r tir o amgylch yr eglwys, sef y 'llan'
- Yn ofodau gwyrdd hanfodol sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at fioamrywiaeth
- Yn ofodau cyhoeddus hanfodol sy'n cynnig cysur a heddwch
- Yn gartref i Adeiladau Rhestredig ac yn nodi cymeriad Ardaloedd Cadwraeth

Gallwch helpu trwy:

- Annog Awdurdodau Lleol a Chynghorau Cymuned i weithio gyda chynulleidfaoedd a'u cefnogi i ofalu am gladdfeydd
- Sicrhau bod deddfwriaeth yn cefnogi'r rheini sy'n gofalu am gladdfeydd
- Cefnogi polisïau sy'n annog a magu hyder gwirfoddolwyr
- Datblygu mwy o ymwybyddiaeth ymhlith cyrff noddi o werth mynwentydd a mannau addoli a chydnabod hyn trwy ddarparu grantiau
- Diogelu grantiau a chefnogaeth sydd ar gael eisoes i gladdfeydd a henebion
- Annog y Llywodraeth i ofyn i Gomisiwn edrych ar ddarpariaeth claddfeydd ledled Cymru i sicrhau dull cydgysylltiedig sy'n sicrhau'r orffwysfan olaf mewn cymunedau